| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Mai 22, 2012** |
| **Aelod sy'n Cyflwyno:** | **Y Cynghorydd Huw Ll Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu / Cydlynydd Craffu** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor** |

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

1.1 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu i'r Cyngor ar gyfer 2011/12.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

2.1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgorau Craffu i'r Cyngor ar eu gweithgareddau yn ystod 2011/12.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2011/12 ac yn rhoi sylwadau'n unol â hynny.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn amodi y bydd pwyllgorau craffu'r Awdurdod yn adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Sir ar eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn. Yn draddodiadol fe gyflwynir yr adroddiad yma yn y Cyngor Blynyddol, ond eleni, oherwydd yr angen i drafod busnes pwysig arall yn y Cyngor Blynyddol, mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei ail gyfarfod.

4.2 O ganlyniad i etholiadau'r awdurdod lleol yn gynharach y mis yma mae'r Cyngor yn awr â 23 o gynghorwyr sydd newydd eu hethol, ac i rai ohonyn nhw fe fydd craffu yn endid cwbl newydd. Gobeithir y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cynorthwyo i gyflwyno gwaith y pwyllgorau craffu i bob aelod newydd a darparu gwybodaeth gefndir werthfawr ar rôl y swyddogaeth i bob aelod etholedig.

4.3 Mae Adroddiad Blynyddol eleni'n dilyn fformat tebyg i'r un a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol, ac fel yn y blynyddoedd diweddar, mae'n cynnwys canlyniadau ymarfer hunanwerthuso yr ymgymerwyd ag o i fesur effeithiolrwydd swyddogaeth craffu. Gan fod ymarfer hunanwerthuso'r llynedd wedi nodi rhai meysydd yr oedd

angen gwaith pellach arnyn nhw er mwyn eu cryfhau, rydyn ni wedi arfarnu'r meysydd hyn eto yn seiliedig ar ganfyddiadau ymarfer hunanwerthuso eleni.  Gellir gweld y casgliadau ar dudalennau 6 a 7 yr Adroddiad Blynyddol sy'n atodol.

4.4 Un mater sydd wedi bod yn broblem gylchol i'r pwyllgorau craffu dros nifer o flynyddoedd ydi cynnal cworwm mewn cyfarfodydd pwyllgor. Fel y'i nodir yn yr Adroddiad atodol, roedd 6 o'r 26 o gyfarfodydd craffu ffurfiol a gynhaliwyd yn ystod 2011/12 heb gworwm - un ai am y cyfarfod cyfan neu fe ddaethon nhw'n ddi-gworwm yn ystod y cyfarfod. Mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu'n arbennig o bryderus am hyn ac, er nad oes yna unrhyw dystiolaeth fod hyn wedi amharu ar effeithiolrwydd craffu hyd yma, mae, er hynny, â'r potensial i danseilio craffu a'r broses ddemocrataidd yn y tymor hir.  O ganlyniad, gyda'r bwriad o ddelio â'r broblem yma, mae'r Grŵp wedi awgrymu y dylid cyhoeddi cofnod presenoldeb pob aelod unigol o bwyllgorau craffu'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn fwrdeistrefol 2012/13 yn yr Adroddiad Blynyddol.  Os, am ba reswm bynnag, y mae aelodau'n methu â mynychu cyfarfod bydd y cofnod yn dangos fod ymddiheuriadau wedi eu rhoi, cyn belled â'u bod wedi eu cyflwyno cyn cynnal y cyfarfod.

4.5 Blwyddyn fwrdeistrefol 2011/12 oedd blwyddyn gyntaf strwythur pwyllgor craffu newydd y Cyngor, pan gafodd y pedwar pwyllgor craffu gweithredol Amgylchedd ac Adfywio, Dysgu Gydol Oes, Adnoddau a Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, eu disodli â thri phwyllgor thematig, sef Cymunedau, Partneriaethau a Pherfformiad.  Cyn diwedd y flwyddyn fwrdeistrefol fe werthuswyd effeithiolrwydd y strwythur newydd i sicrhau ei fod yn cyfarfod â gofynion yr awdurdod ac yn cyflawni amcanion yr ailstrwythuro gwreiddiol.  Mae cyfeiriad wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad sy'n atodol i'r adolygiad.  Y casgliad cyffredinol oedd, yn amodol ar rai mân addasiadau, bod y strwythur newydd yn ffit i'r pwrpas.

4.6 Y llynedd, am y tro cyntaf, roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys ffurflen i alluogi'r cyhoedd i awgrymu meysydd gwasanaethau i graffu eu hystyried.  Roedd cynnwys y ffurflen hon yn ymgais i gynhyrchu diddordeb y cyhoedd a gwella eu rhyngweithiad â chraffu: agwedd y mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dal i ymdrechu ag o.  Fel y dywedir yn yr Adroddiad fe gynhyrchodd y ffurflen yma beth diddordeb ymysg y cyhoedd yn gyffredinol ac fe awgrymwyd dyrnaid o feysydd i graffu eu hystyried.

4.7 Fe ymgorfforwyd y ffurflen gyfeirio a grybwyllir yn y paragraff uchod mewn pamffled gwybodaeth craffu a gynhyrchwyd hefyd am y tro cyntaf y llynedd.  Roedd cyhoeddi'r pamffled yma'n ymdrech arall i gynhyrchu diddordeb preswylwyr yng ngwaith craffu drwy esbonio mewn ffordd syml yr hyn mae craffu'n ei wneud,  sut y gallai eu helpu nhw a sut y gallan nhw ymgysylltu â chraffu.  Fe gaiff taflen debyg ei chynhyrchu eto yn crynhoi gwaith craffu ar gyfer 2011/12 ac yn gofyn i

aelodau'r cyhoedd awgrymu meysydd i graffu eu hystyried.

4.8 Mae'r flwyddyn fwrdeistrefol 2012/13 yn flwyddyn bwysig i bwyllgorau craffu awdurdodau lleol pan fydd pwerau a dyletswyddau newydd yn cael eu cyflwyno iddyn nhw gyda deddfu darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Ymysg y pwerau a'r dyletswyddau newydd a roddir i bwyllgorau craffu'r Cyngor fydd:

- y **grym** i sefydlu cydbwyllgorau craffu gydag awdurdodau lleol eraill;
- y **grym** i gyfethol aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r Cyngor yn aelodau o bwyllgorau craffu awdurdod lleol;
- **dyletswydd** i graffu sefydliadau eraill sy'n cyflenwi gwasanaethau sydd o natur gyhoeddus i breswylwyr yr ardal;
- **dyletswydd** i ymgynghori â dinasyddion ac i ystyried eu barn ar faterion polisi pwysig;
- **dyletswydd** i gyhoeddi blaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu'r Cyngor;
- **dyletswydd** ar Swyddogion Gweithredol y Cyngor i ymateb i adroddiadau ac argymhellion a wneir gan y pwyllgorau craffu

Fe ddeuir â gwybodaeth bellach ar bob un o'r darpariaethau hyn a'r opsiynau y maen nhw'n eu cyflwyno i'r aelodau yn ddiweddarach eleni pan gyhoeddir y canllawiau statudol terfynol..

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd craffu effeithiol yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflenwi ei flaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion a dymuniadau preswylwyr.

**6. Faint fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn rhan o neges adroddiadau pwyllgor rheolaidd i gynghorwyr sir a derbynyddion eraill, felly nid yw ei gyhoeddi'n golygu unrhyw gostau ychwanegol. Bydd costau cynhyrchu'r daflen wybodaeth yn finimal a bydd yn rhaid ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol. Fe gaiff y taflenni gwybodaeth eu dosbarthu i safleoedd y Cyngor fel llyfrgelloedd, Siopau Un Stop ac i gynghorau tref a chymuned, ac fe anfonir fersiynau electronig i'r holl gynghorau ysgolion o fewn y Sir. Fe fyddan nhw ar gael hefyd ar fewnrwyd y Cyngor a'r wefan.

6.2 Bydd unrhyw gostau fydd yn gysylltiedig â'r pwerau newydd a roddwyd i bwyllgorau craffu gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gorfod cael eu hariannu a'u cynnwys o fewn cyllideb bresennol y Cyngor ar gyfer costau democrataidd. Bydd yn rhaid trafod unrhyw gostau cynnal

cyfarfodydd craffu ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill â'r awdurdod lleol perthnasol a'u talu o gyllidebau sy'n bod yn barod.

**7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd?**

Fe ymgynghorwyd ag aelodau Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar gynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes yna unrhyw oblygiadau ariannol arwyddocaol yn deillio o'r adroddiad yma. Fel y'i crybwyllir ym mharagraff 6 uchod bydd angen cynnwys unrhyw gostau sy'n ymwneud â chynhyrchu taflen wybodaeth o fewn cyllidebau presennol a bydd unrhyw gostau sy'n codi o sefydlu cyfarfodydd craffu ar y cyd yn gorfod cael eu trafod rhwng yr awdurdodau perthnasol.

**9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ni nodwyd unrhyw risgiau'n ymwneud â'r ystyriaeth o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau.

**10. Grym i wneud y penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.7 yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn amodi fod yn rhaid i bwyllgorau craffu'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar eu gweithgareddau i'r Cyngor llawn.

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Craffu
Ffôn: (01824) 712554
e-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk